

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun Rhagfyr 9fed 2019 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Alyn Ashworth (Is-gadeirydd), Dyfrig Berry, Lara Pritchard & Irene Williams; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

Ymddiheuriadau: Cyng Gaynor Morgan-Rees Philip Stevens.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Rhagfyr.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim
2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Lun 18eg o Dachwedd 2019.**
3. **Materion yn codi** - Dim.
4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

1) BT/2019/0978

Ymgynghoriad Ciosg BT

Blychau ffôn mewn amryw o safleoedd o amgylch Sir Ddinbych.

.....

Codwyd gwrthwynebiadau ar y cais isod:

2) 01/2019/0967

Tir ger Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych

Tynnu 162m o wrychoedd.

Roedd y cynghorwyr tref yn pryderu bod y Memorandwm Ecoleg yn dod gan aelod o staff Cyngor Sir Ddinbych - dylai fod wedi dod o asiantaeth allanol i fod yn annibynnol ac yn ddiduedd. Hefyd, hoffai'r cynghorwyr tref wybod a wnaed y nodyn archeolegol yn dilyn ymweliad safle neu a oedd yn ymarfer pen bwrdd.

.....

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

3) 01/2019/0998

1 - 9 Graig Teras, Lon Abraham, Dinbych

Gosod ffenestri a drysau newydd i'r drychiad blaen.

.....

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.42yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....